

Chwaraeon RhCT

Astudiaeth Achos

Clybiau ar ôl Ysgol Gaeaf Llawn Lles

Ym mis Tachwedd 2021, roedd cyllid Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n cynnal ystod o weithgareddau i blant a phobl ifainc hyd at 25 oed. Ymateb i Covid-19 oedd sefydlu Gaeaf Llawn Lles er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifainc yn rhan o'r broses adfer wedi'r pandemig. Gwnaethon ni gais am gyllid i ddarparu clybiau ar ôl ysgol mewn ysgolion cynradd. Roedd ein cais yn llwyddiannus.

Dewiswyd tair ysgol i gymryd rhan yn y prosiect ac i gynnal clybiau ar ôl ysgol yn ystod tymor y Gaeaf. Dewiswyd Ysgol Perthcelyn ac Ysgol Cwm-bach am eu bod nhw' ysgolion 'ffocws'. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag ysgolion ffocws bob blwyddyn er mwyn gwella darpariaeth ymarfer corff yn yr ysgol. Mae Ysgol Perthcelyn mewn ardal ddifreintiedig. Mae Ysgol Cwm-bach hefyd mewn ardal ddifreintiedig ac mae darpariaeth ymarfer corff cyfnod sylfaen yr ysgol yn wan.

Dydy Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru ddim yn ysgol ffocws, ond cafodd yr ysgol ei dewis gan fod diffyg darpariaeth ymarfer corff yno, a'r aelodau staff yn rhy ddi-hyder i gynnal darpariaeth allgyrsiol. Wedi i'r prosiect ddod i ben, byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Mae'r ysgol hefyd wedi derbyn offer newydd sbon.

Aethon ni ati i recriwtio hyfforddwyr Chwaraeon RhCT i ddarparu sesiynau hwyliog ar ôl ysgol. Cynhaliwyd 18 sesiwn yn yr ysgolion ac aeth 40 o ddisgyblion iddyn nhw. Roedd y prosiect yma'n llwyddiannus wrth gryfhau ein perthynas â'r ysgolion ac yn gyfle inni ddarparu rhagor o gyfleoedd i'r disgyblion wneud ymarfer corff. Mae'r pandemig wedi cyfyngu'r cyfleoedd i blant fod yn heini, yn enwedig mewn amgylchedd carfan neu grŵp, felly roedd darparu'r clybiau yma'n fuddiol i ddatblygiad sgiliau corfforol a chymdeithasol y plant. Mwynhaodd y plant y sesiynau a derbynion ni adborth hynod o gadarnhaol:

“Rwy' wir yn mwynhau chwarae dodgeball”

“Mae gwneud ymarfer corff mor hwyl ar ôl inni beidio â chael sesiynau ymarfer corff trwy gydol y pandemig”

